tafod elái

MAI 2013

Rhif 277

Pris 80c

Taith i Wlad Belg

Aeth criw o 31, yn blant, athrawon a rhieni o Ysgol Gynradd Castellau ar daith chwaraeon fythgofiadwy i Frwsel dros y Pasg. Yn ôl y sôn hwn oedd y tro cyntaf i ysgol gynradd o Gymru gymryd rhan mewn cystadleuaeth o'r fath ar y cyfandir.

Roedd tipyn o gyffro cyn mynd gyda noddwyr yn darparu cit newydd i bob tîm, y BBC yn darlledu dwy eitem ar raglen Ffeil a Mick Antoniw ein haelod o'r Cynulliad yn galw i ddymuno'n dda i'r plant.

I ychwanegu at y cynnwrf teithiodd y criw allan ar fws moethus cwmni Edwards. Croeson ni ar fôr caredig, y tro cyntaf i hanner y plant deithio ar long, cyn teithio i Ysgol Brydeinig Brwsel.

Yn dilyn gêm bêl-droed yn erbyn yr oedolion, cyffro enfawr wrth gwrdd â'u teuluoedd am y penwythnos. Codi'n gynnar fore Sadwrn i weld haen o eira dros y caeau, tywydd perffaith am ddiwrnod o rygbi a phêl-rwyd! Diwrnod o gystadlu brwd yn erbyn timau o Ffrainc, Luxembourg, Lloegr a thimau lleol. Dychwelyd i dai'r teuluoedd am gawod twym cyn blasu rhywfaint o'r wlad trwy ymweld â Brwsel a mwynhau gŵyl fwyd.

Bore Sul cafwyd cyfres o gemau pêl-droed cymysg cyn gorfod ffarwelio a bwrw nôl am Gymru.

Am brofiad anhygoel a nifer yn ysu am fynd eto.

Marathon Llundain

Llongyfarchiadau i Hefin Gruffudd, Efail Isaf, ar gwblhau Marathon Llundain, dydd Sul, 21 Ebrill, mewn tair awr a 38 munud. Bu'n casglu tuag at elusen Dolen Cymru.

Côr Cymru

Llongyfarchiadau i Elin Llywelyn-Williams, Arweinydd Côr y Cwm, a dderbyniodd tlws ffefryn y gwylwyr yn dilyn pleidlais ffôn a gynhaliwyd yn ystod rownd derfynol y gystadleuaeth.

Llwyddiant tím rygbi o dan 13 Pentyrch

Llongyfarchiadau mawr i fechgyn tîm rygbi o dan 13 Pentyrch ar eu buddugoliaeth wych yn nhwrnamaint Talaith Caerdydd a'r Fro ddydd Sul y 14 Ebrill. Roeddent yn fuddugol ar ôl curo Tredelerch - Rhymni - mewn gêm derfynol hynod o gyffrous. Mae nifer o'r bechgyn yn gyn-ddisgyblion Ysgol Creigiau a bellach ym mlwyddyn 8 yn Ysgol Gymraeg Plasmawr.

Da iawn chi fechgyn a diolch i'r hyfforddwyr am eu cefnogaeth a'u hymroddiad.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 7 Mehefin 2013
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
24 Mai 2013

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Cydnabyddir Cefnogaeth

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Noson yng Nghwmni'r Dr Neville Evans 'Gwyddonwyr Cymru'

8.00yh Nos Fercher
8, Mai
Canolfan Tabernacl,
Efail Isaf

Am ragor o fanylion,
ffoniwch: 029 20890040

CLWB Y DWRLYN

Bwffe a Sbri

Nos Fawrth,
18 Mehefin
Clwb Rygbi Pentyrch
am 6.30 o'r gloch

Manylion: 029 20890040

CERDD BYW
acapela STIWDIO STUDIO
12.05.2013 AL LEWIS BAND
24.05.2013 RT DIXIE BAND
25.05.2013 RICHARD JAMES
7.06.2013 CATRIN FINCH
8.06.2013 GWYNETH GLYN & TAUSEEF AKHTAR
9.09.2013 BAND ALAW
tocynnau
www.acapela.co.uk 08448 700 887
neu doctor 8.30am - 10am

Ysgol Castellau
(Parhad o dudalen 1)

Trip Meithrin a Derbyn i 'Cakes'n Shakes

Fel rhan o'n gwaith thema ar yr ardal leol aethom ni, y dosbarth Derbyn a'r Dosbarth Meithrin, am dro i'r caffi lleol Cakes'n Shakes. Cawsom groeso mawr yno a chafodd y plant gyfle i ddewis, archebu a thalu am ysgytlaeth blasus a bisgedi oedd wedi eu gwneud yn arbennig ar eu cyfer. Fe wnaethom ni fwynhau yn fawr iawn.

Gohebydd Newydd

Croeso i Emma Thompson i'r criw prysur sy'n bwydo newyddion i Tafod Elái. Bydd Emma yn casglu newyddion yn ardal Llanilltud Faerdref.

Bore Coffi i'r dysgwyr

yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob bore Gwener o 11 hyd hanner dydd. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.



Owen Griffith Jones
Dip RSL
Hyfforddiant Piano

Athro piano profiadol, proffesiynol gydag agwedd bositif a chreadigol. Arholiadau ABRSM (Perfformiad a Theori) neu am bleser yn unig – croeso i bob oedran. Cysylltwch a mi i drafod eich anghenion.

3 Graig Cottages
Miskin, Pontyclun
CF72 8JR
Prif Ffon : 01443 229479
Ffon Symudol : 07902 845329

GWAELOD Y GARTH A FFYNNON TAF

Gohebydd Lleol: June Huws

Priodas

Priodwyd Laura Evans a Lee Pinney yn ddiweddar. Mae Laura yn ferch i John a Hazel Evans, Ty Llwyd, Gwaelod-y-garth ac mae Lee yn wreiddiol o Cwm, yng Ngwent. Mae Lee yn gweithio i Gyngor Sir Caerffili a Laura yn gweithio i Gyngor Gofal Cymru. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Llanbradach. Dymyniadau gorau iddynt ar gyfer y dyfodol.

Hyrwyddwr Dwyieithrwydd Coleg Morgannwg

Gyda chymorth ariannol mae Coleg Morgannwg wedi penodi Hyrwyddwr Dwyieithrwydd newydd. Bydd y swyddog newydd, sef Jamie Bevan o Ferthyr Tudful, yn gyfrifol am ehangu a datblygu darpariaeth Gymraeg y coleg ar draws y tri champws. Bydd Jamie wedi ei leoli ar Gampws newydd Nantgarw ond fe fydd hefyd yn gweithio yng ngholeg Aberdâr a'r Rhondda.

Efallai bydd rhai ohonoch yn nabod Jamie am ei waith gyda Menter Merthyr a Chymdeithas yr Iaith. Mae e hefyd yn parhau gyda'i waith fel tiwtor Cymraeg i Oedolion gyda Chanolfan CiO Morgannwg.

Meddai Jamie: 'Dwi wirioneddol yn edrych ymlaen at fy swydd newydd. Mae problem gyda phobol ifanc yn gadael ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg yn cael ei gadael tu ôl iddynt. Dwi'n edrych ymlaen at gael rôl mewn newid y tueddiad hwnna. Mae gyda'r colegau addysg bellach rôl bwysig i chwarae wrth newid agweddau pobol ifanc tuag at yr Iaith yn ogystal ag hyfforddi gweithluoedd Cymraeg y dyfodol.'

Dros y misoedd nesaf fe fydd modiwlau Cymraeg yn cael eu cyflwyno yn ogystal ag ehangu ar y ddarpariaeth ddwyieithog ar gyrsiau'r coleg. Fe fydd hefyd cymorth pellach i staff a myfyrwyr sydd am ddefnyddio'u Cymraeg ac i'r rheini sydd am fagu hyder a gwella'u sgiliau ieithyddol.

Mae Jamie yn gwahodd unrhyw un sydd am gysylltu, staff, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r cyhoedd, sydd ag unrhyw ymholiadau parthed y Gymraeg a Choleg Morgannwg i gysylltu â fe, naill ai trwy e-bost J.Bevan@morgannwg.ac.uk neu trwy ffonio'r coleg ar 01443 662800

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Pen-blwydd Hapus yn 90 oed

Y mis diwethaf, buom yn dymuno pen-blwydd hapus i DJ Davies yn 90 oed. Y mis yma mae'n ben-blwydd arbennig ar un arall o ddarllenwyr Y Tafod, sef Marian Llywellyn. Ar ôl cyfnod yn yr ysbyty eleni, mae Marian wedi gwella'n dda a chael cyfle i ddathlu pen-blwydd arbennig mewn o leiaf tri dathliad – gyda'i theulu, gyda'i chyfeillion a gyda'i chyd-aelodau o Bwyllgor Codi Arian Ymchwil Cansyr Tonyrefail. Marian yw ysgrifennydd y pwyllgor hwn ers blynyddoedd mawr. Diolch i chi am eich gwaith pwysig a phen-blwydd hapus oddi wrth ddarllenwyr Tafod Elái.

Marian gyda'i chyfaill Jayne

Cylch Meithrin Tonyrefail

Mae'r Cylch Meithrin yn ffynnu ac wedi ymestyn ei oriau agor i bum diwrnod yr wythnos. Oherwydd hyn, mae'r sesiwn Ti a Fi wedi newid ei amser i 12.30pm-2.30pm bob dydd Gwener, gyda chinio iach yn cael ei weini am 1pm.

Mae'r staff a'r plant wedi bod wrthi'n brysur yn codi arian - £30 ar ddiwrnod y Trwynau Coch a dros £200 ar Ddiwrnod Hwyl a Sbri'r Pasg.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr

Delyth Rhisiart yw siaradwraig wadd Mis Mai. Dewch i wrando arni yn trafod 'Digartrefedd' yn Festri Capel Sardis nos Iau Mai 9fed am 7.30p.m.

Angen cadw'n ystwyth? Fe ddaw Mari Rhys atom unwaith eto i wneud ioga-nos Iau Mehefin 13eg

Oes mwy o fagiau llaw 'da chi??

Clwb Llyfrau

Byddwn yn cwrdd yng Nghlwb y Bont nos Fawrth Mai 14 eg am 8.00p.m. Dewch i drafod y llyfrau Saesneg y buoch yn darllen yn ddiweddar.

Y gyfrol dan sylw ym mis Mehefin yw nofel Gwen Parrott 'Cyw Melyn y Fall'-nos Fawrth Mehefin 18fed am 8.00

Babi newydd

Ganwyd mab i Rhianydd a'i gwr Nicky- croeso mawr i Jimmy Maguire. Maent yn byw ym Medwas. Llongyfarchiadau hefyd i mamgu a thadcu, Gaynor a Trevor Evans, Lanwood Road, Graigwen.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Lowri Mared a Marc Real. Priodwyd y ddau yng Nghastell Caerffili ar un o'r diwrnodau oeraf ym Mis Mawrth ond cafwyd diwrnod ardderchog er gwaetha' tywydd.Unig ferch Delyth a Graham Davies, Cilfynydd yw Lowri a mae Marc yn fab i Tony a Chris Real, Tonteg. Brawd Marc, Richard oedd ei was a'r morynion oedd Lowri Mair Jones, Marged Haf Wyatt a Rhian Morgan. Y criw i gyd yn gyn ddisgyblion Rhydfelen a Llanhari. Aethant ar eu mis mel i Wlad yr Ia a maent wedi ymgartrefu yn Grangetown, Caerdydd.

Y Gymdeithas Wyddonol

Nos Lun, 18fed o Fawrth, daeth Dr Emyr Lloyd-Evans i siarad â ni am ei waith yn adran y Biowyddorau ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae e'n gweithio ar lysosomau, rhan o beirianwaith ailgylchu y gell, a'r clefydau sy'n digwydd pan fo nam ar y lysosom. Mae'r grwp yma o tua 50 o glefydau, gan fwyaf yn rhai niwrolegol, yn lled brin, ond efallai y rhai mwyaf enwog yw clefyd Gaucher a chlefyd Niemann-Pick. Esboniodd Emyr sut roedd rhai o'r symptomau o'r clefydau yma yn debyg iawn i glefydau Parkinson a Altzheimers a sut gallai triniaethau i'r clefydau lysosom fod yn ffordd o ddatblygu ffyrdd o drin y clefydau eraill yma.

Soniodd hefyd am y posibilrwydd o ddatblygu triniaethau i'r diciâu sydd ddim yn dibynnu ar gwrthfiotig - testun amserol iawn! Roedd diddordeb mawr gen i glywed am y gwaith a wnaed ar effeithiau llesol y cemegyn circumin sydd yn bresennol yn y sbeis twrmeric - cynhwysyn pwysig mewn llawer cyri. Felly mae'n swyddogol, gall cyri fod yn dda i chi!

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
029 20890979

Adran Bro Taf
Mae Daniel Jones, Iestyn Jones, Aled Robbins a Josh Morgan wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda adran Bro Taf eto eleni. Byddant yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Boncath yn y cystadlaethau dawnsio gwerin grŵp, clocsio grŵp, cân actol a grŵp llefaru. Fe dalodd yr holl ymarferion ar eu canfed. Diolch i'r athrawon am eu hamser a'u hymroddiad. Pob lwc bawb! Gwnewch eich gorau a joiwch! Byddwn yn dilyn eich hanes tua'r gorllewin!

Dr. Catrin Middleton
Llongyfarchiadau gwresog Catrin ar ennill dy ddoethuriaeth o Brifysgol Nottingham. Nid ar chwarae bach daeth y teitl yna i'th ran. Y Dr Middleton cyntaf yn y teulu, ynte? Maes ymchwil Catrin oedd ceisio canfod prawf deiagnostig cynnar i gancr yr afu. Mae bellach yn parhau efo'i hastudiaeth yn Llundain. Gwaith hynod bwysig, hynod ddylanwadol. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Geni Bryn
Llongyfarchiadau mawr i Alun a Carly Thomas, Llansamlet ar enedigaeth eu babi bach cyntaf! Ganwyd Bryn Lewis Arthur ar 19 Mawrth 2013. Cefnder bach i Casi, Nel, Caitlin a Deiniol. Cliws yn fan'na? Wel - mae e'n ŵyr bach i Dr Don a Trish Thomas hefyd - mam-gu a thad-cu balch iawn! Croeso i'r byd Bryn!

Pen-blwydd priodas ruddem hapus
Llongyfarchion Wynff a Meira ar ddathlu deugain mlynedd o fywyd priodasol ar y 23ain o Ebrill! Lluniau hyfryd ar Facebook - braf gweld y teulu i gyd yn mwynhau'r dathliad!

Genedigaethau Pentyrch

Llongyfarchiadau i Siân a John ar enedigaeth yr efeilliaid Ela ac Owen, yn gwmni i Nansi fach.

Llongyfarchiadau i Sara ac Aled Davies ar enedigaeth Elis Morgan.

Neuadd y Dref, Llantrisant

Crys Rhyngwladol Grav yn codi £400 i Ysbyty Plant Cymru

Cafodd Crys Grav ei gyflwyno gan deulu Jim Parcnest ac fe ddywedodd: 'Pan oedd fy mab, Bedwyr, yn ei flwyddyn olaf yn Ysgol Gynradd Y Dderwen, Caerfyrddin, fe ennillodd gystadleuaeth arlunio ar raglen deledu Miri Mawr. Y wobr oedd y crys rhyngwladol a wisgodd Grav yn ei ail gêm dros Gymru, sef y gêm yn erbyn Lloegr, Chwefror 1975. Daeth Grav i'r stiwdio i gyflwyno'r crys i Bedwyr. Ar ôl gwerthu'r crys yn Eisteddfod Y Mochyn yn Mawrth eleni, dymuniad Bedwyr yw rhoi'r elw i Ysbyty Plant Cymru'.

Codwyd £400 yn yr arwerthiant, ac fe fydd crys Grav yn cael ei arddangos gyda balchder yn ei gartref newydd sef Y Mochyn Du yng Nghaerdydd.

Yn y llun: Huw Llywelyn Davies (Yr Arwerthwr a Llywydd Eisteddfod Y Mochyn Du), Jim Parcnest a Gareth Huws o'r Mochyn Du yn cyflwyno'r siec am £400 i Jasmine Ahearn o Apel Arch Noa / Ysbyty Plant Cymru.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
FFRAMWAITH
Clwb Haf
Cynllun Chwarae Gymraeg Gofrestredig AGGCC
Darparwn amgylchedd diogel, cyffrous a gofalgar i blant i chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg
I blant dosbarth derbyn i flwyddyn 6
Campws Gymunedol Garth Olwg, Pentre'r Eglwys
9 yb - 5 yp Dydd Llun i Ddydd Gwener
22ain Gorffennaf 2013 i 16eg Awst 2013
£15 y dydd
(neu £65 am wythnos o 5 diwrnod)
Angen dod a phecyn bwyd
Angen archebu lle
Manylion: ☎ 01443 40 75 70 💻 www.menteriaith.org

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y Mis:
Siân Cadifor

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant.
Erbyn hyn mae dyddiad taith y Gymdeithas i Gaerfyrddin wedi ei benderfynu, sef dydd Sadwrn, Mai'r 11eg. Os hoffech chi ymuno gyda nhw cysylltwch â'ch cynrychiolydd lleol.

Penblwydd Hapus
Llongyfarchiadau i Alan James, Portreeve Close, Llantrisant, a ddathlodd benblwydd arbennig iawn ddiwedd mis Ebrill!

Pwll nofio Llantrisant
Mae'r pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant wedi ail-agor ers pythefnos, ar ôl cael ei adnewyddu fel rhan o'r gwaith ar y Ganolfan. Mae yna raglen lawn o wersi a gweithgareddau, ar gyfer yr hen a'r ifanc. Hefyd gall teuluoedd a phlant o dan 16 oed gofrestru ar gyfer defnyddio'r pwll yn rhad ac am ddim.

Gwellhad buan
Dymunwn wellhad buan i Gwenda Voisey o Donysguboriau a dorrodd ei braich dde mewn dau fan wrth gwympo yn ddiweddar.

Posteri dwyieithog
Cafodd Geraint Price berswâd o'r diwedd ar Ganolfan Iechyd Maenor Meisgyn i osod posteri gwybodaeth dwyieithog ar draws y Ganolfan. Hoffai i fynychwyr – yn enwedig rhai â phlant sy'n cael gwersi o unrhyw fath yna, wneud pwynt o longyfarch y sefydliad a'r rheolwr ar y posteri Cymraeg, o safbwynt tegwch i'r iaith, ac o safbwynt iechyd a diogelwch. Mae'n diolch yn bersonol i'r rheolwr am wrando o'r diwedd.

Neuadd y Dref Llantrisant.
Efallai bod rhai o'n darllenwyr wedi clywed cyfweliad gyda'n hanesydd lleol ni, ac un o Ryddfreinwyr Llantrisant, Dean Powell, ar Radio Cymru yn ddiweddar, lle roedd yn sôn am ddatblygiad diddorol yn yr Hen Dref. Mae gan Ymddiriedolaeth Tref Llantrisant gynlluniau uchelgeisiol gwerth £750,000 i adnewyddu ac adfer yr hen Neuadd y Dref i sut yr edrychai yn wreiddiol, gan greu canolfan i arddangos hanes a threftadaeth y dref.

Cafodd y neuadd ei hail-adeiladu yn 1773 ar seiliau canoloesol, ac ers hynny mae wedi cael ei defnyddio fel llys barn, carchar ac ysgol.

Bwriad yr Ymddiriedolaeth, sydd wedi ysgwyddo'r gwaith o ofalu am y neuadd ar ran Rhyddfreinwyr Llantrisant, yw trawsnewid y neuadd i fod yn ganolfan gelfyddydol ac addysgiadol, a all ddenu ymwelwyr i'r dref ac i'r ardal ehangach, yn ogystal â chynnig cyfleusterau i'r trigolion lleol.

Yn ddiweddar derbyniodd yr ymgyrch grant dechreuol o £58,800 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri. Bydd y grant datblygu hwn yn helpu tuag at y cam nesaf, sef cyflwyno cais arall am swm o arian sylweddol a fyddai'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddwyn y maen i'r wal.

Oes Gafr Eto?
Pan ymgartrefodd tair gafr Gymreig yng nghysgod Twr y Gigfran ar safle Castell Llantrisant y llynedd, nhw oedd y trigolion cyntaf i fyw yno ers saith can mlynedd! Nawr maen nhw wedi dychwelyd i'r Castell am chwe mis, fel rhan o gynllun lleol i glirio a rheoli'r tyfiant o'i amgylch. Mae gan y geifr eu lloches eu hunain ar y safle, ac mae gwirfoddolwyr lleol yn gofalu amdanynt yn ddyddiol, gyda dwr a bwyd ychwanegol. Bwriad Cyngor Rhondda Cynon Taf yw sicrhau bod y castell, lle yr honnir i'r Brenin Edward yr Ail gael ei garcharu, yn llecyn deniadol y gall ymwelwyr a thrigolion lleol ei fwynhau heb or-dyfiant o'i amgylch i'w guddio. Efallai bydd y geifr yn rhan o'r atyniad!

Gwellhad buan
Ein dymuniadau gorau i Siân Llewelyn Barnes o Feisgyn. Fe fu Siân yn yr ysbyty yn derbyn llawdriniaeth ar ei hysgwydd, ac mae wedi bod yn broses hir a phoenus ers hynny wrth iddi dderbyn therapi cyson. Gobeithio bydd hi'n gwella'n fuan.

Newyddion mis Mehefin
Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer colofn mis Mehefin at Eurof James – ffriddycwm@tiscali.co.uk

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Gwasanaeth Arbennig
Mae Eglwysi Bedyddwyr Cymraeg Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg yn uno bob mis i gynnal Gwasanaeth ar y cyd er mwyn i bobl ddod i adnabod ei gilydd yn well ac er mwyn i'r eglwysi llai gael cynulleidfa mwy niferus. Tro Moreia Hendreforgan oedd hi, nos Lun Ebrill 16ed, i estyn croeso ac roedd y capel bach bron yn llawn. Y pregethwr oedd y Parch Eifion Wynne Dowlais. Wedi gair gan y Llywydd Beverley Jones, Tabernacl Merthyr, cafwyd gair o groeso ar ran Moreia gan Mair Thomas. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Kath Rickard, Capel Rhondda Trehopcyn, a Rosa Hunt a fydd yn cael ei sefydlu'n weinidog ar Gapel Salem Tonteg Fehefin 8ed. Wedi'r bregeth gan y Parch Eifion Wynne cafwyd y fendith gan Mary Watkins, Heol y Felin Trecynon.

Wedi'r oedfa cafwyd paned a sgwrs a chyfle i siarad â hen gyfeillion ac i ddod i adnabod cyfeillion newydd. Roedd cynyrchiolwyr o 15 o gapeli yn y cyfarfod ac edrychwn ymlaen at y cyfarfod nesaf ac i'r Cwrdd Sefydlu yn Salem Tonteg.

Dathlu 100
Gwnaeth Eva Edwards dathlu ei chanfed penblwydd ar Ebrill 10 gyda theulu a ffrindiau. Mae Eva wedi byw ers rhai blynyddoedd nawr gyda Gwyneth (ei hunig blentyn) yn y Stryd Fawr. Bu Eva yn aelod ffyddlon o Fyddin yr Iachawdwriaeth ac yn mynychu gwasanaethau bob dydd Sul lan hyd nes dwy flynedd yn ôl. Llongyfarchiadau mawr Eva.

Clwb Rygbi
Gyda'r tymor oer a gwlyb ar fin dod i ben, braf i'ch hysbysu am lwyddiant y tîm ieuenctid, enillwyr y cwpan "Merit Table" nos Fercher Ebrill 23 ym Mhenygraig yn erbyn Ystrad Rhondda. Bu'r Ieuenctid yn fuddugol o 17 pwynt i 6 mewn gêm hynod o gyffrous.

Mae tîm y menywod wedi cael tymor llwyddiannus gyda 5 o'r chwaraewyr yn aelod o garfan y Gleision ac 1 yn aelod o garfan Dwyrain Cymru. Bu Gemma Hallett (capten tîm menywod Cymru) wrthi yn ddiweddar yn cynnal sesiwn hyfforddi.

Mae'r tîm cyntaf, ar hyn o bryd yn y 6ed safle yng nghyngrair 1 y Dwyrain gyda 3 gêm ar ôl i chwarae– digon dymunol wrth ystyried fod y chwaraewyr yn brin oherwydd anafiadau ac oblygiadau gwaith. Gobeithio bydd digon o'r ieuenctid dawnus ar gael tymor nesaf i ymuno.

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**
Mis Mai 2013
5ed Oedfa Ardal – Aelodau Radyr
12fed Oedfa Gymun - Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
19eg Oedfa Cymorth Cristnogol
26ain Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
Mis Mehefin 2013
2il Parchedig Aled Edwards
9fed Oedfa Gymun - Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
16eg Parchedig Dewi Myrddin Hughes
23ain Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
30ain Parchedig Derwyn Morris Jones

"Daw haul a'i hud-wialen" ym mis Mai yn ol T Arfon Williams, ond i ni ym Methlehem, ac mewn llawer Bethlehem arall ar hyd a lled Cymru, mis Cymorth Cristnogol ydi mis Mai yn ddiwahan. A fydd eleni'n ddim gwahanol.

Bydd criw o'r aelodau yn crwydro strydoedd Gwaelod-y-garth yn dosbarthu (gwaith gweddol hawdd), a chasglu (ddim mor hawdd) amlenni Cymorth Cristnogol, gan ofyn yn garedig i'r trigolion a ydynt yn dymuno cefnogi ymdrechion diflino'r elusen i greu cymdeithas decach i bawb trwy'r byd i gyd.

Mae'r ymateb ar stepan y drws yn gallu bod yn gymysglyd iawn, rhai wrth reswm wedi paratoi, a'r amlen yn llawn ac wedi ei selio'n barod, eraill yn awgrymu nad oes newid ganddynt, rhai yn gwrthod a rhai yn gwrthod hyd yn oed agor y drws!

Ond dal ati o flwyddyn i flwyddyn fydd hanes y casglwyr, gan sicrhau fod y neges yn cael ei hail-adrodd, a wyneb cyhoeddus Bethlehem yr un mor daer beth bynnag yr ymateb.

Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol Sul y 19eg o Fai, a byddwn bryd hynny yn dilyn oedfa a fydd yn cael ei rhannu ar draws Cymru benbaladr.

Mae'n fwriad hefyd cynnal Bore Coffi yn y Festri fore Sadwrn y 25ain o Fai (rhwng 10 a 12 o'r gloch), er budd Cymorth Cristnogol, gan ddefnyddio hynny i agor y drws i'r pentrefwyr sydd yn ymwybodol o'r adeilad ond heb erioed deimlo'r gwres sydd o'i fewn.

Fel arfer, ar adegau o ofyn, mae Bethlehem a'i haelodau eisioes wedi ymateb i Apel Syria Cymorth Cristnogol gan obeithio y bydd clustiau'r gwleidyddion yn clywed y gri am gymorth, a'r dyhead i roi terfyn ar yr ymladd a'r lladd sy'n dinistrio cymdeithas a gwareiddiad.

Yn ystod y mis hefyd bydd Holiadur yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau i ofyn am eu barn ynglyn ac addoli ym Methlehem. Awgrym y Gweithgor Addoli oedd hyn, gan geisio sicrhau fod awgrymiadau am le'r plant a'r bobl ifanc, yn ogystal â'r aelodau hŷn yn yr oedfaon yn cael eu hystyried.

Bydd yr Holiadur yn gofyn barn am y defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf mewn oedfa, awgrym sut i wella gwefan y capel, parodrwydd i fod o gymorth gyda gwahanol weithgareddau, ac hefyd sut mae estyn llaw i gymell mwy o drigolion y Gwaelod i gynnwys y capel fel rhan o'u cylchoedd a'u pentref.

Bydd yn sicr yn ddiddorol cael adborth o'r fath wrth baratoi i symyd ymlaen i bennod newydd arall yn hanes Bethlehem.

Daeth tymor arall yn hanes "Drws Agored" i ben yn ystod mis Ebrill, a phawb wedi mwynhau trin a thrafod Waldo, ac wedi dod i'w adnabod dipyn yn well ers mis Medi diwethaf. O fis Medi nesaf ymlaen bydd "Drws Agored" yn dilyn gwaith Ann Griffiths ac eraill o emynwyr Cymru (gan roi pwyslais efallai ar y merched eraill fu'n cyfansoddi emynau?).

Os oes chwant troi i mewn i oedfa rhywbryd yn y dyfodol, bydd croeso yn eich disgwyl bob amser ym Methlehem, Gwaelod-y-garth. Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org Ymwelwch yn gyson â'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl. Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

TONTEG

Gohebydd Lleol: Gill Williams

Genedigaeth ŵyr bach
Croeso mawr i Elis Morgan, mab bach Aled a Sara Davies sy'n byw yn Nhreganna ond yn hannu o Donteg a Phentyrch. Ganed Elis, ddydd sul, Ebrill 14eg a phawb yn gwneud yn dda. Llongyfarchiadau i'r rhieni balch, ac wrth gwrs i Elwyn a Carys, Y Dell, (a Gwyneth, Pentyrch) ar ddod yn nain a dadcu (a mamgu) am y tro cyntaf, maent ar ben eu digon.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Marian Wynne

Clwb y Dwrlyn
Frank Lincoln oedd y siaradwr yng nghyfarfod mis Ebrill, Clwb y Dwrlyn a daeth tyrfa gref i wrando arno. Gan dynnu ar ei brofiad hir ym myd darlledu, ei waith fel cyflwynydd cyngherddau, a'i wybodaeth eang o fyd yr opera, soniodd am rai troeon trwstan yn y meysydd yma. Yn gymysg â'r straeon cafwyd cyfle hefyd i wrando ar rai o'i hoff gantorion gyda gair neu ddau am gefndir pob un. Diolch yn fawr Frank am noson o ddiddanwch pur.

Penblwydd Hapus
Llongyfarchiadau i Dewi Hughes ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. 'Roedd y deisen a dderbyniodd yn gampwaith, yn adlewyrchu diddordeb Dewi mewn cerdded a dringo'r mynyddoedd.

Genedigaethau
Llongyfarchiadau i Siân a John ar enedigaeth yr efeilliaid Ela ac Owen, yn gwmni i Nansi fach. Mae Nain a Tad-cu, Gwyneth a John Williams yn mynd i fod yn brysur iawn.

Llongyfarchiadau hefyd i Sara ac Aled Davies ar enedigaeth Elis Morgan, ŵyr cyntaf i Gwyneth Lewis, Pentyrch a Carys ac Elwyn Davies, Tonteg.

Priodasau Ruddem
Fel y gwelwch mae sawl pâr wedi mwynhau dathlu deugain mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar.

Aeth Yvonne a Gareth Williams ar daith i Awstralia i ddathlu eu priodas ruddem cyn dod nôl i gyd –ddathlu gyda'r teulu ym Mhortiwgal.

Mae'n siwr i Judith a Ken Evans gael amser da yn ninas rhamantus Paris wrth iddynt hwythau ddathlu a dihangodd Carol a Penri Williams rhag yr oerfel i fwynhau'r haul a dathlu yn Gran Canaria.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Merched y Wawr
Un o brosiectau Gill Griffiths, y llywydd cenedlaethol, yw rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg ymarfer mewn sefyllfa anffurfiol a dyna a ddigwyddodd yng nghyfarfod Merched y Wawr ym Methlehem, Gwaelod y Garth, ym mis Ebrill. 'Roedd criw da o ddysgwyr, eu hathrawon ac aelodau Merched y Wawr wedi dod at ei gilydd i sgwrsio dros baned a bara brith. Yn ogystal clywsom am yr ymgyrch i sefydlu canolfan gymunedol Gymraeg y Mimosa yn Y Barri gan Kay Holder, enillydd dysgwr y flwyddyn 2011. Felly, os ydych yn Y Barri, galwch yno am baned a sgwrs.

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Trip Blwyddyn 2
Aeth disgyblion o Flwyddyn 2 i Ganolfan Addysgiadol Cilfynydd ym mis Chwefror. Bu'r plant yn mwynhau bod yn yr awyr agored yn chwilota! Buont yn dysgu am bwysigrwydd ailgylchu ac arbed dŵr a'r modd y gallant hwy helpu yn y tŷ ac yn yr ysgol. Da iawn chi!

Trip Blynyddoedd Cynnar y Cyfnod Sylfaen
Gan mai'r thema yn y Cyfnod Sylfaen y tymor hwn yw 'Cymru', aeth disgyblion Blynyddoedd Cynnar y Cyfnod Sylfaen ar drip i Sain Ffagan. Roedd hi'n ddiwrnod braf gyda phob un yn mwynhau ymdrochi ei hunan yn ein hanes ni. Braf oedd gweld y plant yn cwestiynu'r rhai a fu'n gweithio yn Sain Ffagan yn synhwyrol ac yn gwrtais.

Ymweliad PC Jones
Bu P.C. Siân Jones yn ymweld â'r ysgol i drafod gwahanol bethau gyda disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen. Gwrandawodd y plant o'r dosbarthiadau Meithrin a'r Derbyn yn astud arni wrth iddi gyflwyno y math o waith y mae'r heddlu yn ei wneud. Caswant gyfle i wisgo gwahanol ddillad ac hetiau – un neu ddau o'r plant yn awyddus i fod yn blismon neu'n blismones pan yn hŷn!

Trip Blwyddyn 6 i'r Eglwys
Er mwyn dysgu mwy am stori'r Pasg, aeth disgyblion o Flwyddyn 6 i Eglwys Bethel ym Mhontyclun. Cawsant gyfle i weld pobl yn actio rhannau'r stori a bu'r profiad yn un gwerth chweil gyda phob un yn mwynhau ac wedi elwa o'r profiad.

Eisteddfod
Er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol yn ogystal â gwneud amrywiol weithgareddau yn seiliedig arni yn ystod yr wythnos. Llongyfarchiadau mawr i bob un a gymrodd rhan yn ein hesiteddfod ysgol ar Fawrth 1af. Cafwyd diwrnod o fwynhau gyda rhai yn adrodd, canu a dawnsio. Aeth y rhai a fu'n fuddugol i Ysgol Llanhari i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Wedi bore o gystadlu brwd, daeth pob un nôl i'r ysgol yn gyffrous i rannu eu newyddion da eu bod nhw'n mynd i'r Eisteddfod Sir ym Mhorthcawl. Ym Mhorthcawl, diddanodd y disgyblion y gynulleidfa a'r beirniad yn yr Eisteddfod Sir ac o ganlyniad maent wedi llwyddo mewn sawl cystadleuaeth i gyrraedd Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro. Dymunwn pob hwyl i bawb!

Myfyrwyr newydd
Croeso mawr i'n myfyrwyr newydd. Bydd Miss Enfys Owen yn Nosbarth 3 yn addysgu plant Derbyn, bydd Miss Angharad Wright yn Nosbarth 4 yn addysgu plant Derbyn a Blwyddyn 1 a bydd Mr Zack Williams yn addysgu Blwyddyn 4. Pob hwyl i'r tri ohonynt a gobeithio y byddant yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Trawsgwlad
Llongyfarchiadau mawr i dîm trawsgwlad yr ysgol fu'n cystadlu yn Llanhari ddechrau mis Ebrill. Da iawn i chi gyd! Dyma ganlyniadau y gystadleuaeth tîm.
Blynyddoedd 3 a 4 ~ Tîm y bechgyn yn 1af. Tîm y merched yn 2il
Blwyddyn 5 ~ Tîm y bechgyn yn 1af. Tîm y merched yn 2il
Blwyddyn 6 ~Tîm y bechgyn yn 2il. Tîm y merched yn 1af.

Dyma ganlyniadau cystadlaethau yr unigolion.

Blynyddoedd 3 a 4 Bechgyn
1af ~ Jack Clay. 2il ~ Tomi Booth.
3ydd ~ Gruff Morgan

Blwyddyn 5 Bechgyn
1af ~ Gethin Evans 2il ~ Dylan Edwards
3ydd ~ Siôn Pari
Blwyddyn 5 Merched
3ydd ~ Ela Porter

Blwyddyn 6 Bechygyn
3ydd ~ Rhys Morgan
Blwyddyn 6 Merched
1af ~ Lili Gaskin
3ydd ~ Grace Daunter

Adran Chwaraeon yr Urdd

Helenw@urdd.org
0797600 3358

Mae gan adran chwaraeon yr Urdd nifer o glybiau cymunedol, sydd yn rhedeg yn ardal Taf. Mae croeso i unrhyw un fynychu'r clybiau yma i gadw'n heini, gwneud ffrindiau newydd a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg:

Gymnasteg yn Ysgol Garth Olwg
Bob Nos Iau
4yp-4.45yp: derbyn i flwyddyn 1
4.45yp tan 5.45yp: blwyddyn 2 i 5
Pris £2.50

Tenis
Ym Mharc Pontypridd bob nos Lun
5.30yp tan 6.30yp Blwyddyn 3- 6

Ac hefyd ar gyrtiau Tenis Fynnon Daf
Bob Nos Fawrth
5yp - 6yp Blwyddyn 3-6 Pris £2.50

Aml Gamp - Cymysgedd o wahanol chwaraeon
Trefforest bob nos Iau 5yp tan 6yp
Blwyddyn 1-4 Pris £2

Athletau
Ysgol Uwchradd Garth Olwg
Bob nos Fercher 4.45 tan 5.45,
Blwyddyn 3-6 Pris £2

Plantos Heini Taf
I Blant 0-4 oed. Clwb wythnosol i hybu datblygiad corfforol eich plentyn a magu hyder mewn awyrgylch gyfeillgar. £3 y sesiwn. Rhaid i rieni aros gyda'r plant.
Yn Gym Fusion, Pontyclun
Pob bore Iau 10yb tan 11.30. Pris £3

Llwyddiant ysgubol Cwmni Selsig

Llongyfarchiadau fil i *Dale Evans a'i gyd -aelodau o gast y sioe gerdd 'Jekyll & Hyde' a berfformiwyd gydag angerdd ar lwyfan theatr y Parc a Dâr dros wythnos ola mis Ebrill. Cynhyrchiad ardderchog - cystal os nad gwell nag unrhyw sioe gaech chi ar lwyfannau'r West End! Dale oedd y Cyfarwyddwr Cerdd ond yn ogystal roedd ganddo ran amlwg - sef Simon Stride - yn y cynhyrchiad. Do'n i erioed wedi gweld y sioe ar lwyfan o'r blaen - er yn gyfarwydd â rhai o'r caneuon - megis 'Take me as I am' a 'Once upon a dream' a'r enwog 'This is the moment' felly roedd yn brofiad gwych clywed y caneuon yn eu cyd-destun.

Sefydlwyd Cwmni Selsig 'nôl ym 1948 gan garedigion cerdd a drama top y Rhondda. Fe'i ffurfiwyd yn ardal Blaenrhondda ac fe benderfynwyd ar yr enw 'Selsig' - (dim byd i wneud â sosejys fel y sicrhaodd Dale fi!) oherwydd bod yna afonig fechan yn yr ardal o'r enw Glanselsig, yng Nghwm Selsig ger Craig Selsig! Tybed all rhywun fy ngoleuo ar darddiad yr enw? Pob llwyddiant i'r Cwmni yn y dyfodol ac os fethoch chi gyfle i fwynhau'r sioe yma gellwch ymweld â gwefan y Cwmni - www.selsig.net - neu eu dilyn ar Facebook er mwyn dal y cynhyrchiad nesa ac i brofi pytiau o holl berfformiadau'r gorffennol.

*Dale - uwch athro yn ysgol gynradd Treorci - ond wedi treulio tri mis ar gwrs Sabothol yn dysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Morgannwg y Gwanwyn yma - a bellach yn Gymro i'r carn - werth ei glywed yn siarad Cymraeg. Llongyfarchiadau!

Ysgol Dolau

Pêl-rwyd
Daeth Ysgol Gynradd Garth Olwg i chwarae sawl gêm gyfeillgar ar Fawrth 5ed. Roedd timoedd cymysg o ddisgyblion Blynyddoedd 3,4,5 a 6, gyda llawer yn chwarae mewn safleoedd newydd. Roedd hi'n hwyl i ymarfer ein sgiliau . Diolch yn fawr i chwaraewyr Garth Olwg a oedd yn hyfryd ac oedd yn dangos potensial enfawr.

Diwrnod Y Trwynau Coch
Penderfynodd Cyngor yr Ysgol i bawb wisgo rhywbeth coch ar gyfer Diwrnod y Trwynau Coch eleni. Talodd y disgyblion £1 am wneud. Roedd stondin gacennau gan Ddosbarth 7 yn ystod amser chwarae a oedd yn llwyddiannus dros ben. Codwyd dros £530! Diolch enfawr i bawb a gyfrannodd.

Bant Â Ni !
Cafodd disgyblion y ddwy Adran yn y Cyfnod Sylfaen ddiwrnod i'r brenin ar Chwefror yr 8fed, wrth wisgo eu dillad gwyliau, pacio eu bagiau a 'hedfan' ar eu taith. Roedd pawb wedi creu pasbort, labeli teithio a thocynnau hedfan yn barod i hedfan i'r gwledydd yr oeddent wedi eu hastudio yn ystod y tymor. Aeth plant Meithrin a Derbyn i'r Alban ac Awstralia, a Blynyddoedd 1 a 2 i'r Aifft. Trawsnewidiwyd y Gampfa i Lolfa Ymadael , ac roedd Capten Evans wrth ei fodd yn cyhoeddi'r ymadawiadau dros uchelseinydd yr ysgol. Stampiwyd pob pasbort gan Mrs. Webb cyn mynd i'r efelychydd hedfan yn y neuadd. Roedd staff wrth law i weini byrbrydau a diodydd yn ystod y daith. Glaniodd bob awyren yn ddiogel ar ôl teithiau bendigedig a diwrnod i gofio!

Pythefnos Masnach Deg
Cawsom amryw o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o Fasnach Deg yn ddiweddar, gan gynnwys blasu gwahanol fwydydd, Helfa Fwyd, Bore Coffi, a gwerthu nwyddau Masnach Deg amrywiol. Roedd y Cynghorau Eco a Masnach Deg wedi llwyddo i godi dros £550 dros y pythefnos, ac roedd pawb wedi dysgu llawer am effeithiau Masnach Deg ar y ffermwyr a thyfwyr dros y byd. Diolch i bawb a gyfrannodd. Rydyn ni'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn barod.

Eisteddfod Ysgol
Bu dathliadau Dydd Gŵyl Dewi ddydd Gwener, Mawrth y 1af. Roedd canu hyfryd gan bawb. Roedd eitemau amrywiol yn ystod y dydd gan gynnwys Blwyddyn 1 yn rhoi sioe o ddawnsio gwerin, Charlotte Kwok yn swyno pawb wrth y piano, Cameron Coburn yn llefaru'r darn 'Y Bensel Hud', grŵp dawnsio creadigol a dawns disgo unigol gan Ellie Rees.
Roedd tystysgrifau wedi cael eu dosbarthu am ymdrechion llawysgrifen a chelf a chrefft y plant. Roedd y seremoni coroni yn hyfryd – Cerys Lloyd enillodd y Gadair ac Ethan Roberts enillodd y Goron. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt!

Eisteddfod Gylch
Ddydd Mercher 6ed Mawrth, roedd ein Heisteddfod Gylch yn Llanhari. Roedd Cameron Coburn, Blwyddyn 3 a Dyfan Krieger, Blwyddyn 4 wedi llefaru 'Y Bensel Hud'. Roedd Charlotte Kwok, Blwyddyn 2 wedi perfformio ac ennill yr unawd piano. Enillodd y grŵp dawnsio disgo. Llongyfarchiadau mawr i bawb a phob lwc yn y rownd nesaf!
Mae'r grŵp creadigol hefyd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir, ynghyd ag Ellie Rees, sydd yn dawnsio disgo yn unigol. Pob lwc i bawb!

Rygbi
Ar ddiwrnod rhewllyd ym mis Chwefror cystadlodd ein tîm rygbi yn erbyn 8 o ysgolion eraill yng nghystadlaethau blynyddol Ysgolion Pontypridd, yn y Bad Uchaf. Yn dilyn gemau cystadleuol tu hwnt, gan gynnwys curo Heol y Celyn 31-0 yn y rownd gynderfynol, bydd Dolau yn chwarae yn y rownd derfynol i'r Plât yn erbyn Gwaun Celyn. Bydd rownd derfynol y Cwpan rhwng Castellau a Phontyclun. Llongyfarchiadau a phob lwc i bawb.

Gwobr NAACE y 3ydd Mileniwm
Yn ddiweddar rydyn ni wedi ennill Gwobr Naace 'Dysgu yn y 3ydd Mileniwm' am ein defnydd arloesol o dechnoleg er mwyn codi safonau dysgu ac addysgu trwy gydol yr ysgol. Ni yw'r ysgol gyntaf yn Rhondda Cynon Tâf i ennill y wobr , ac yn un o ddim ond 6 trwy Gymru gyfan i dderbyn y wobr gyda chymeradwyaeth arbennig. Cyflwynwyd y Wobr i'r ysgol o flaen cynulleidfa enfawr a brwdfrydig yn Sioe BETT yn Llundain ym mis Ionawr. Mae Ysgol Gynradd Dolau nawr yn un o ddim ond 70 ysgol ym Mhrydain a thu hwnt i dderbyn y wobr!

Athletau
Cymerodd Blynyddoedd 3, 4 a 5 ran mewn gŵyl athletau yn y Ddraenen Wen a Chanolfan Hamdden Tonyrefail ddydd Mawrth a dydd Mercher , Mawrth 19eg a 20fed. Roedd eu hagwedd, brwdfrydedd a'u hysbryd tîm yn wych wrth ymuno yn y rasys cyfnewid, naid hir, gwaywffon, a sgiliau cryfder a buanedd. Edrychwch allan amdanynt yng Ngemau'r Olympaidd yn 2024!

Tacluso Llanharan
Roedden ni wedi cael llond ein boliau o'r holl sbwriel oedd wedi'i wasgaru o amgylch pentre' Llanharan, felly trefnom ni gasglu'r sbwriel ein hunain.

PENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol:
Emma Thompson

Gorymdaith i Godi Arian
Da iawn i bawb a chymerodd rhan yn orymdaith o gwmpas Pentre'r Eglwys ar fore Sul y 24ain o fis Mawrth. Fe wnaeth bron 200 cymeryd rhan, ar fore ofnadwy o oer, i godi arian i Sefydliad Aren Cymru.

Traffig yn y Pentref
Mae nifer o bryderon gan drigolion lleol ynglŷn â'r cynnydd mewn traffig peryglus yn Llanilltud Faerdref. Mae Steven Owen a Ioan Bellin, wedi bod yn trefnu deiseb i gael mesurau tawelu traffig ar Ffordd Llantrisant a'r Stryd Fawr.
O bron i 30 o gamerâu cyflymder yn RhCT dim ond un camera statig sydd yna ar hyd y ffordd yma, ar Stryd St Illtyd, sydd ddim ar y Stryd Fawr ei hunan. Mae'r ddeiseb yn gofyn am gamera cyflymder statig parhaol ar y ffordd, mae'n debyg wrth ymyl Ysgol Garth Olwg ac efallai gweld mwy o arwyddion rhybudd ar hyd y ffordd.
Os ydych chi'n byw ar, neu ar bwys, y Stryd Fawr ac efo unrhyw sylwadau, eisiau arwyddo'r ddeiseb neu eisiau rhagor o wybodaeth, yna cysylltwch gyda Steven Owen trwy anfon ebost at owain33@sky.com.

O'r Awyr
Os am weld Pentre'r Eglwys fel yr oedd yn 1930 mae wefan Prydain oddi Fry yn cyflwyno casgliad diddorol o Aerofilms o awyluniau o 1919 hyd at 1953. Allwch weld yr ardal fel yr oedd efo gorsaf tren a chyn adeiladu yr hen Ysbyty Dwyrain Morgannwg.
www.britainfromabove.org.uk/cy

Ar ddiwrnodau gwlyb a gwyntog iawn, gwisgodd disgyblion Blynyddoedd 3 a 4, eu rhieni a staff cyn mynd ati i dargedu gwahanol ardaloedd o amgylch y pentre' gan gynnwys Parc Chwarae'r Ganolfan Gymunedol a'r ardal parcio, parc chwarae Plas Trenos, Parc Chwarae Canolfan Hamdden Llanharan a thir ein hysgol. Rydyn ni'n wir obeithio y bydd ein hymdrechion yn dylanwadu ar eraill i gael gwared a'u sbwriel yn synhwyrol.

Swap It Day!
Cafodd ddisgyblion CA 2 gyfle i gyfnewid eitemau diangen – naill ai rhai doedden nhw ddim eu heisiau rhagor neu doedden nhw ddim yn defnyddio. Roedd cyfle i gyfnewid am rywbeth arall, gan ddeall bod dim troi nôl wedyn! Roedd hi'n weithgaredd llwyddiannus a chyfle gwych i ail-ddefnyddio pethau.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Pen-blwydd
Llongyfarchion gwresog i Cliff Hewitt, Penywaun a ddathlodd ben-blwydd arbennig iawn yn ystod mis Ebrill.

Yn yr Ysbyty
Bu John Jones, Nantyfelin yn yr ysbyty eto yn ddiweddar yn derbyn triniaeth. Bregus iawn mae iechyd John a'i wraig Audrey wedi bod yn ddiweddar. Dymunwn adferiad iechyd buan iddynt.

Marathon Llundain
Llongyfarchiadau mawr i Hefin Gruffydd, Nantcelyn ar ei orchest yn rhedeg Marathon Llundain ar ei gynnig cyntaf. Cwblhaodd y dasg mewn amser da iawn o dair awr 38 munud, gan godi swm o arian teilwng iawn i'r elusen Dolen Cymru.

Y TABERNACL
Genedigaethau
Llongyfarchiadau i Trish a Don Thomas ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganwyd mab bach, Bryn Lewis Arthur i Alun a Carly.

Llongyfarchion i Carys ac Elwyn Davies, Tonteg ar eu statws newydd yn Nain a Thad-cu i Elis Morgan, mab bach cyntaf i Aled a Sara.

Merched y Capel
Fore Mawrth, Ebrill 16eg fe deithiodd nifer fach o'r Merched i Amgueddfa Pontypridd gerllaw'r hen bont enwog. Cawsom ein croesawu gan Mr Brian Davies ac fe eglurodd fod yr amgueddfa wedi ei lleoli yn hen gapel y Tabernacl. Roedd nenfwd yr adeilad yn eithriadol o brydferth a'r organ bib hardd yn dal i gael ei chwarae mewn cyngherddau achlysurol. Mae'r amgueddfa yn llawn creiriau a lluniau sy'n portreadu hanes y dref a'r ardaloedd cyfagos. Tywyswyd ni wedyn i weld yr hen bont a adeiladwyd gan William Edwards yn y ddeunawfed ganrif. Cafodd bedwar cynnig ar y dasg o'i hadeiladu gan i'r ddwy bont gyntaf gael eu dinistrio gan lifogydd. Cwympodd y drydedd bont dan ei phwysau'i hun. Fe ymlwybron ni wedyn i Barc Ynysangharad, Parc a grëwyd yn gofeb ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Soniodd Brian am waith enwog Cwmni Brown Lenox a oedd gerllaw'r parc. Gwaith creu cadwyni a sefydlwyd yn 1818 a gynhyrchodd gadwyni haearn gorau'r byd ar gyfer angori llongau. Daeth ein taith i ben gerllaw Cofeb Evan James a James James, cyfansoddwr ein Hanthem Genedlaethol. Gwaith y cerflunydd William Goscombe John yw'r gofeb a chafodd ei gosod yn y Parc yn 1930.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Llawr Cyntaf, 9 Y Stryd Fawr,
Pontypridd. CF37 1QJ
01443 407570

www.menteriaith.org

Arddangosfa ffotograffau – 'Menter Iaith Rhondda Cynon Taf mewn llun'

Ydych chi am wybod mwy am waith a gwasanaethau Menter Iaith Rhondda Cynon Taf neu â diddordeb yn yr iaith Gymraeg a phwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned?
Dewch lawr i Ganolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg rhwng Mai 13eg – Mehefin 31ain lle fydd arddangosfa o ffotograffau'r Fenter dros y blynyddoedd diwethaf yn y galeri yn y prif fynedfa.
Cyfle gwych i chi gael cip olwg ar waith gwerthfawr yr elusen.

Sesiynau Stori a Chreu i blant yn y Gymraeg! – Hanner tymor mis Mai 2013 – AM DDIM!
Os ydych chi'n edrych am rywbeth gwahanol i wneud dros wyliau hanner tymor dewch i wrando ar stori a gwneud ychydig o gelf a chrefft yng nghwmni staff Menter Iaith Rhondda Cynon Taf.
Cyfle i blant ddefnyddio'r iaith Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth a chreu rhywbeth arbennig i fynd adref!
Gweler lleoliadau, dyddiadau ac amseroedd sesiynau llyfrgelloedd yr ardal yma isod.
(*Mae'r sesiynau yma yn addas i blant oed Cynradd – Croeso i bawb! – Rhaid i bob plentyn ddod gyda oedolyn)
Am fwy o fanylion cysylltwch â Catrin Reynolds (Swyddog Gweithgareddau Teuluol Menter Iaith Rhondda Cynon Taf ar 01443 407570 neu e-bostiwch: catrinreynolds@menteriaith.org

Llyfrgell Pentre'r Eglwys	**Dydd Mawrth, Mai 28ain** ***Oherwydd diffyg lle a galw uchel bydd rhaid ffonio swyddfa'r Fenter i fwcio lle yn y Llyfrgell yma'n unig Swyddfa: 01443 40757**	**11:00-12:00yp**
Llyfrgell Aberdâr	**Dydd Mercher, Mai 29ain**	**11:00-12:00yp**
Llyfrgell Treorci	**Dydd Iau, Mai 30ain**	**11:00-12:00yp**
Llyfrgell Hirwaun	**Dydd Iau, Mai 30ain**	**2:30-3:30yp**
Llyfrgell Pontyclun	**Dydd Gwener, 31ain**	**11:00-12:00yp**

Sialens Kilimanjaro - 20fed - 29ain o Fedi, 2013

Cynhaliwyd noson wych yng Ngwesty'r Village, Caerdydd yr ail ar bymtheg o Ebrill lle daeth tua 200 o bobol ynghyd i wrando ar Iolo Williams yn traddodi ar Fywyd Gwyllt Cymru. Rhan o ymgyrch codi arian Iolo, Shân Cothi a Cheryl Jones oedd y noson - codi arian ar gyfer ymchwil cancr. Ond nid trwy ddarlithio a gwerthu tocynnau raffl y bydd y glewion yma yn codi pres - o'u blaenau mae sialens aruthrol. Byddant yn rhan o grwp o ddringwyr glew fydd yn taclo Mynydd Kilimanjaro yn Nhanzania fis Medi eleni er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith di-flino ysbyty Felindre, Caerdydd. Codi ymwybyddiaeth a chodi arian wrth gwrs. Os am gefnogi gellwch ymweld â gwefan ysbyty Felindre sef www.velindrefundraising.com/trekofalifetime neu i gefnogi tâm Shân sy'n casglu arian er mwyn hyrwyddo'r ymchwil i gancr y pancreas - yr elusen amserjustintime - trwy ymweld â www.justgiving.com/Kili-Angels

Diolch Iolo am noson arbennig o gofiadwy. Dewisodd rhyw ugain o sleidiau - lluniau o'i hoff blanhigion, hoff greaduriaid, hoff adar ac fe gawson berlau wrth iddo adrodd straeon am ei brofiadau a rhannu o'i wybodaeth faith. Pob lwc ar y daith - pob lwc gyda chodi arian! Dewch yn ôl yn saff i adrodd yr hanes!

Ein taith nesaf fydd ymweliad â Phenrhys yn y Rhondda ddydd Llun, Mai 13eg a bydd Cennard Davies wrth law i'n tywys a'n goleuo am hanes yr ardal.

Cyngerdd
Cynhelir cyngerdd yng Nghapel y Tabernacl nos Fawrth, Ebrill 30ain am hanner awr wedi saith. Cymerir rhan gan Ysgol Gynradd Castellau, Ysgol Gynradd Maes y bryn a Chôr y Einion. Cyflwynir elw'r gyngerdd i gronfa leol Cymorth Cristnogol.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Mai.
Mai 5ed. Oedfa Gymun o dan ofal ein Gweinidog.
Mai 12fed. Oedfa Cymorth Cristnogol.
Mai 19eg. Elenid Jones.
Mai 26ain. Allan James.

Newyddion o Acapela

Mae nifer o gyngherddau wedi'u trefnu yn ystod mis Mai a Mehefin. Mae tocynnau ar gael o Acapela neu gan staff 'Meddygfa Pentyrch' sydd yma rhwng 8.30-10 bob bore Llun-Gwener. Byddai'n braf gweld trigolion yr ardal yn mynychu'r digwyddiadau. Os oes grwpiau o 6 neu fwy eisiau dod i un o'r nosweithiau cysylltwch ag Acapela.

Nos Sul Mai 12eg, 7.30 - Acapela, Pentyrch
Al Lewis - Dewch i fwynhau noson yng nghwmni Al Lewis a'r band.
Tocynnau ar gael o'r wefan, www.acapela.co.uk neu am ddim i bobl sy'n mynd i weld Al Lewis yn y 'Glee Club' Caerdydd (Ebrill 29ain)
Cyfle hefyd i glywed 'Ellie Makes Music' yn lansio ei sengl newydd yn ystod y noson.

Nos Wener Mai 24ain, 7.30 - Acapela, Pentyrch, CF15 9QD
Rhys Taylor a'i 'RT Dixieband' - Dewch i fwynhau noson o gerddoriaeth Dixieland yng nghwmni Rhys Taylor a'i RT Dixieband. Diben yr 'RT Dixieband' yw dechrau band jazz traddodiadol sy'n perfformio cerddoriaeth Gymraeg mewn arddull jazz traddodiadol / dixieland. Mae repertoire Cymraeg y band yn cynnwys caneuon traddodiadol, emynau a chaneuon poblogaidd o'r degawdau diwethaf.
Tocynnau ar gael o Acapela neu o'r wefan: www.acapela.co.uk

Nos Sadwrn, Mai 25ain 7.30 - Acapela,
Richard James a'r Band: Un o gyfansoddwyr gwerin gorau Prydain, i'w glywed yn rheolaidd ar BBC R2
Tocynnau ar gael o Acapela neu o'r wefan: www.acapela.co.uk

Nos Wener, 7fed Mehefin 7.30 - Acapela, Catrin Finch yn perfformio 'Amrywiadau Goldberg' gan JS Bach
Tocynnau ar gael o Acapela neu : www.acapela.co.uk

Nos Sadwrn, 8fed Mehefin 7.30 - Acapela
Noson yng nghwmni Gwyneth Glyn & Tauseef Akhtar (Prosiect Cerddoriaeth Womex rhwng Cymru a'r India)
Tocynnau o Acapela neu o'r wefan: www.acapela.co.uk

Nos Sul, 9fed Mehefin 7.30 - Acapela,
Cyfle i glywed 'ALAW', band gwerin newydd (acordion, ffidl a gitar) yn cynnwys Oli Wilson-Dickson, Dylan Fowler a Jamie Smith. Cariad at alawon hyfryd sydd wrth wraidd y grŵp newydd yma. Tocynnau ar gael o'r wefan: www.acapela.co.uk

CLWB NAINI gydag ELINOR BENNETT Dydd Sul 12 Mai am 10.30
Cân a stori i blant bach

Yn y gyfres o gyflwyniadau byrion, bydd y delynores, ELINOR BENNETT yn canu caneuon gwerin a hwiangerddi traddodiadol Cymraeg gyda phlant ifanc o dan 6 oed.

Bydd llawer o'r caneuon yn rhai a ddysgodd Elinor gan ei Nain ei hun pan oedd yn blentyn bach, a rhai eraill yn dod allan o hen gasgliadau o hwiangerddi a chaneuon plant.

Cadw'r caneuon yn fyw ydi'r nôd ac efallai fod rhai o'r caneuon heb fod yn cael eu canu heddiw, ond fe hoffai Elinor eu cyflwyno i'w hwyrion a'u hwyresau a'u cyfeillion gydag ambell stori.

Tua 30 - 40 munud fydd hyd pob sesiwn, ac anogir y plant i ymuno yn yr hwyl trwy ganu, dawnsio a gwrando.

CORNEL Y PLANT

CWIS YR URDD!

1) Beth yw bathodyn enwog Yr Urdd?
.....
2) Pwy wnaeth sefydlu Urdd Gobaith Cymru?
.....
3) Ble mae dau wersyll enwog Yr Urdd?
.....
4) Enwch ddau beth rydych yn gallu eu gwneud yn y gwersylloedd yma?
.....
5) Ble mae Eisteddfod Yr Urdd eleni?
.....

Chwiliwch am y llwybr cywir i'r wenynen fedru cyrraedd y blodyn mawr!

Edrychwch ar y ddau lun o'r anifeiliaid ar y fferm, a chwiliwch am y gwahaniaethau. Mae wyth gwahaniaeth.





Atebion Cwis yr Urdd
1. Triongl coch, gwyn a gwyrdd
2. Ifan ab Owen Edwards
3. Llangrannog a Glanllyn
4. Canwio, dringo, bowlio deg, cartio sgio
5. Boncath, Sir Benfro

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 689888

www.tafwyl.org
Mae gwefan newydd Tafwyl nawr yn fyw gyda gwybodaeth am yr Ŵyl yn y Castell ar 15 Mehefin a gweithgareddau'r wythnos. Cofiwch hefyd bod modd dilyn Tafwyl ar Twitter a Facebook am y newyddion diweddaraf!

Howard Marks – Tocynnau ar werth nawr
Prin nad oes angen cyflwyniad i'r gŵr hwn o Kenfig Hill ger Pen-y-bont ar Ogwr, sydd heb os yn mynd i fod yn un o uchafbwyntiau ffair Tafwyl eleni. Yn ddiweddar mae Howard Marks wedi teithio gwyliau dros y byd yn sôn am ei fywyd, a bydd yn bleser ei groesawu yn ôl i Gymru lle bydd y comedïwr Daniel Glyn yn sgwrsio ag o yng Ngŵyl Tafwyl y 15fed o Fehefin yng Nghastell Caerdydd. Mae'r tocynnau, sy'n £5, ar gael nawr ar wefan Menter Caerdydd – mentercaerdydd.org. Trefnir mewn cydweithrediad â Llenyddiaeth Cymru.

'Bake off' Tafwyl
Castell Caerdydd / 15.06.06
Hoffi pobi? Mwynhau rhaglen Great British Bake Off? Beth am gystadlu yn Bake Off cyntaf Tafwyl? Bydd tri categori ar gyfer cystadlu:
1) O dan 11: Pobi ac Addurno 6 o Gacennau Bach (£2 i gystadlu)
2) O dan 16: Pobi ac Addurno 6 Cupcake (£2 i gystadlu)
3) Oedolion: Pobi ac Addurno Cacen Sbwng 2 haen neu fwy (£3 i gystadlu)
Bydd angen i chi ddod â'ch cacennau i'r Castell erbyn 11am ar ddiwrnod Tafwyl. Cofrestrwch i gystadlu ar wefan Menter Caerdydd www.mentercaerdydd.org cyn Dydd Llun, Mehefin y 3ydd.

Cyrsiau Hyfforddiant i Oedolion
Bydd y cyrsiau hyfforddiant isod yn cael eu cynnal cyn diwedd tymor yr haf. Am fwy o fanylion ewch i wefan Menter Caerdydd neu cysylltwch ag Angharad Thomas angharad@mentercaerdydd.org / 2068 9888
Iaith ar Waith yn y Dosbarth (21 a 28.06 a 05.07)**.** Cwrs 3 diwrnod i wella Sgiliau ac Ymwybyddiaeth Ieithyddol ar gyfer cynorthwywyr dosbarth.
Proffesiynoldeb yn y Gweithle (27.06)
Cwrs diwrnod i gynorthwyr dosbarth fydd yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau yn y gweithle fel agweddau cadarnhaol, ymddygiad a sgiliau priodol.

Cwis y Mochyn Du
Bydd cwis yn cael ei gynnal Nos Sul, Mai 26 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch bod y cwis ar Nos Sul olaf bob mis!

Holiadur Gwasanaethau Menter Caerdydd
Diolch yn fawr iawn i bawb sydd eisioes wedi llenwi ein holidaur diweddar am wasanaethau a gweithgareddau'r Fenter. Mae dal cyfle i chi ymateb a chyfrannu drwy lenwi'r arolwg ar ein gwefan.

Hanner Tymor Sulgwyn
Cofiwch gadw llygad ar wefan Menter Caerdydd am wybodaeth lawn am weithgareddau hanner tymor! Byddwn yn cynnal Cynlluniau Gofal, sesiynau Bwrlwm, Miri Meithrin a llawer mwy...

C
C R O E S A I R
L

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau



Ar Draws
1. Tynnu o'r wraidd (10)
8. Ymaflyd (7)
9. Chwaraewr rygbi rhwng dau brop (5)
10. Lan (4)
11. Hurtyn (4)
12. Ciwb Chwarae (3)
14. Fel dafad fach (6)
15. Difater (6)
18. Twll i gordyn (3)
20. Llinell (4)
21. Dihiryn (4)
23. Dafad fach (5)
24. Arswydus (7)
25. Chwenychiadau (10)

I Lawr
1. Pren pigog (7)
2. Dotio (4)
3. Rhan o gylch (6)
4. Lleihau mewn gwerth (8)
5. Cyflwr da'r corf (5)
6. Yn perthyn i'w brodor cyntaf (11)
7. Y cyflwr o fod yn llawn gras (4)
13. Cilio o'r golwg (8)
16. Rhannau o bennod y Beibl (7)
17. Gwatwareg (6)
19. Adeilad i drin gwlan (5)
22. Yn hytrach na (4)

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 20 Mai 2013

Atebion Ebrill

■	D	A	N	A	D	■	A	M	L	E	N	■
■	■	B	■	T	■	C	■	U	■	I	■	O
D	E	W	I	S	■	U	N	D	O	N	O	G
I	■	Y	■	E	■	DD	■	O	■	I	■	E
O	R	D	E	I	N	I	O	■	C	O	E	D
G	■	■	■	N	■	O	■	C	■	E	■	U
■	D	E	L	I	O	■	B	L	A	S	U	■
B	■	I	■	O	■	M	■	E	■	■	■	E
O	E	D	I	■	C	A	D	W	R	A	E	TH
N	■	A	■	E	■	N	■	T	■	R	■	O
D	O	L	E	N	N	U	■	I	A	CH	O	L
O	■	W	■	W	■	S	■	A	■	O	■	■
■	T	R	E	I	O	■	A	N	A	LL	U	■

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Taith afon Taf Blwyddyn 5 Mrs Davies gan Huw Griffiths
Fel rhan o'n thema Troi a Llifo aeth ein dosbarth i ddilyn cwrs yr Afon Taf mewn bws mini lan i Fannau Brycheiniog. Cerddon ni lan at darddiad yr Afon Taf ar ddechrau Pen-y-Fan. Roedd y lle yn bert iawn. Gwelon ni geffylau gwyllt yn pori'n dawel ac yn heddychlon ar y glaswellt. Hefyd gwelon ni llednant, nentydd, rhaeadrau bach a mawr a dyfroedd gwyllt. Roedd rhostiron del a gwelon ni'r fyddin yn ymarfer.

Wedyn teithion ni lawr i gronfa ddŵr Coed Taf Fawr. Dysgon ni bod y cronfa ddŵr wedi cael ei chreu gan ddyn felly doedd e ddim yn naturiol.

Ar ôl hynny fe aethon ni lawr i Goed-y-Cwm. Roedd yna safle trin dŵr fyna. Roedd yn drewi fel pŵ!! Ar ôl hynny fe aethon ni nôl i'r bws. Wedyn cerddon ni i'r parc i fwyta ein bwyd.

Wedyn fe gerddon ni nôl i'r bws a gyrron ni i Bontypridd. Cyrhaeddon ni Bontypridd ac fe welon ni'r bont. Roedd yr afon yn llifo'n llawer mwy araf. Syllon ni ar y bont am ddeng munud.

Wedyn fe deithion ni i Fae Caerdydd. Gwelon ni'r 'barrage' a'r bont newydd. Chwaraeon ni am ugain munud. Edrychon ni ar yr aber. O'r diwedd roedd yr Afon Taf wedi gorffen ei thaith. JOIAIS I MAS DRAW!!!!

Traws Gwlad
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn rasus Traws Gwlad yr Urdd. Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn.

Marathon
Diolch o galon i bawb sydd wedi noddi Mr Gruffydd ar gyfer Marathon Llundain. Casglwyd eisoes £2,077.05 i Dolen Cymru. Cafodd Mr Gruffydd amser anhygoel o 3 awr 38 munud.

Cwis
Llongyfarchiadau mawr i dim 1 Garth Olwg ar ennill rownd rhanbarthol cystadleuaeth gwybodaeth gyffredinol y Quiz Club.

Athletau Dan Do
Llongyfarchiadau i dîm Garth Olwg ar ennill cystadleuaeth Athletau dan Do y Sir.

Cwis Llyfrau
Llongyfarchiadau i dîm Blwyddyn 3 a 4 ar ennill Cwis Llyfrau y Sir. Byddant yn awr yn cystadlu yn y rownd Genedlaethol a gynhelir yn Aberystwyth ym mis Mehefin.

YSGOL CREIGIAU

Croeso nôl i Mrs Glenda Griffith! Mae Mrs Griffith wedi bod ffwrdd ar gyfnod mamolaeth – brâf cael ei chwmni unwaith eto.

Mae'n dymor newydd ac mae'n argoeli i fod yn un prysur a chyffrous iawn.
Mae'r tîm rygbi eisioes wedi bod yn cystadlu yn nhwrnament yr Urdd gan lwyddo i gyrraedd y rownd gyn-derfynol. Llongyfarchiadau iddyn nhw! Roeddent yn chwarae yn eu cit newydd. Diolch i Dr. Nick Stallard am ei gwneud hi'n bosib i ni fuddsoddi yn y cit newydd. Roedd y bois yn edrych yn smart iawn!

Mae'r tîm pêl-droed wrthi'n ymarfer yn brysur hefyd. Fe fu gêm gyfeillgar rhyngddynt ag Ysgol Gynradd Tonysguboriau yn ddiweddar. Cafwyd llawer o hwyl. Chwaraewyd dwy gêm, gyda'r tîm yn colli un ac yn dod yn gyfartal yn yr ail. Da iawn bois!

Mae'n amser prysur yng ngardd yr ysgol ar hyn o bryd gyda llawer o blannu'n mynd ymlaen. Mae disgyblion Bl.5 wrth eu boddau'n cael helpu.

Mae thema newydd gan bob dosbarth y tymor yma gyda nifer o dripiau wedi eu trefnu. Mae Dosbarth 2 yn mynd i Gastell Coch ac mae Dosbarthiadau 3 a 4 yn mynd i Fosg a Synagog. Fe aeth Dosbarth 5/6 i Fae Caerdydd ar ddechrau'r tymor fel rhan o'u thema Daearyddol. Fe groeson nhw'r Bae draw i Benarth a nôl ar gwch, defnyddio olwyn fetr i fesur perimedrau, cyn cael cynllunio a chreu adeiladau 3D allan i glai. Diwrnod gwych!

Pêl-rwyd
Diolch yn fawr iawn i Tracy Oatridge-banc HSBC am wneud match funding, sydd wedi ein galluogi ni i brynu gwisgoedd newydd i'r tîm pêl-rwyd. Diolch hefyd i Mrs Watts am archebu'r ffrogiau. Pob hwyl i'r plant sydd ar fin dechrau cynghrair pêl-rwyd Ysgolion y clwstwr.

Meithrin / Derbyn
Mae`r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn mwynhau`r thema newydd sef Arweinwyr Cymunedau. Mae`r dosbarth Meithrin wedi bod am dro i`r pentref i ddysgu am yr ardal leol. Roedden nhw wrth eu bodd yn ymweld a Jen yn Cutting Corner, y plismon, y pobydd, y siopwraig yn Flower Power a gweld y Swyddfa Bost, Optegydd a`r Golchdy.

Mae nifer o siaradwyr wedi rhannu gwybodaeth am eu swyddi e.e. y Llyfrgellydd, nyrs, a morwr o`r Llynges.

Mae nifer o ymweliadau eraill wedi eu trefnu hefyd. Diolch i bawb am fod mor barod i ddod i siarad gyda`r plant.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL

Llongyfarchiadau!
Llongyfarchiadau i Mrs Donna Davies a'i gŵr James ar enedigaeth eu mab bach, Oliver James.

Croeso
Croeso mawr i Miss Rebecca Gatt a Mr Aled Power i'r ysgol. Mae'r ddau yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd Miss Gatt yn addysgu blwyddyn 4 a bydd Mr Power yn addysgu blwyddyn 2. Hoffwn estyn croeso cynnes i'r ddau.

Traws gwlad yr Urdd
Bu aelodau o Flynyddoedd 3-6 yn cynrychioli'r ysgol yn ystod cystadleuaeth traws gwlad yr Urdd. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu, yn enwedig i Keeley Adams o flwyddyn 5 am ennill ras y merched (BL 5 a 6). Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus iawn i'r ysgol wrth i dîm merched blwyddyn 5 a 6 ddod yn gyntaf a'r bechgyn yn drydydd. Diolch i'r holl ddisgyblion wnaeth gymryd rhan.

Pêl-fasged
Roedd blwyddyn 5 a 6 yn drist iawn wrth ffarwelio a Missy Lender o'r Rhondda Rebels ar ddiwedd tymor y gwanwyn. Mae Missy wedi bod yn dysgu sgiliau pêl fasged i'r dosbarth ers dau dymor.

Twrnament pêl-droed
Aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnament pêl-droed 7 bob ochr yng Nghanolfan Gymunedol, Gilfach Goch. Rhoddodd bawb ymdrech ardderchog yn erbyn y timau lleol eraill a chipion nhw'r wobr gyntaf - campus!

Gweithdy Masnach Deg
Daeth Mr Emyr Williams a Miss Elly Jones o siop SUSSED ym Mhorthcawl i gynnal gweithdai masnach deg, cyffrous i flynyddoedd 3-6. Mwynhawyd yn fawr.

Her Darllen
Mae nifer o ddisgyblion wedi bod yn brysur iawn wrth gymryd rhan mewn her darllen a gafodd ei lawnsio gan RhCT i hyrwyddo a dathlu darllen yn yr ysgol ac yn y cartref. Roedd 'gwobr' o 500 milltir am bob 10 munud o ddarllen ac roedd y milltiroedd yn cael eu casglu mewn pasbort arbennig oedd yn dangos faint oedd wedi ei ddarllen yn ogystal â dilyn taith yr unigolyn. Roedd angen teithio 33,000 milltir i deithio o amgylch y byd i gyd! Cafodd pob plentyn dystysgrif a chyfle i nodi ei h/enw ar gerdyn post a bod yn rhan o raffl fawr er mwyn ceisio ennill gwobr i'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gwblhaodd yr her!

Ysgol Creigiau

Bois y tîm rygbi yn eu cit newydd gyda'u hyfforddwr Mr Balbini.

Rhai o ddisgyblion Blwyddyn 5 yn helpu yn yr ardd.

Creu adeiladau 3D allan o glai.

Mesur perimedrau yn y Bae

Tîm pêl-droed yr ysgol yn chwarae yn erbyn ysgol Tonysguboriau.

Ysgol Garth Olwg

Tîm Traws-gwlad llwyddianus

Enillwyr y Quiz Club

Llongyfarchiadau i dîm Garth Olwg ar ennill cystadleuaeth Athletau Dan Do y Sir.

Tîm Blwyddyn 3 a 4 a enillodd Cwis Llyfrau y Sir

Gwisgoedd newydd y tîm pêl-rwyd.

Ysgol Tonyrefail

Gweithdy Masnach Deg

Keeley Adams, Bl5 enillydd ras traws-gwlad

Ysgol Llanhari

Y Chweched
Mae 52 o fyfyrwyr y chweched dosbarth wedi cael cynigion o amryw o Brifysgolion eleni, gyda rhai yn derbyn cynnig o Brifysgolion safon uchel iawn. Mae Cory Davies wedi derbyn cynnig di-amod o Brifysgol Aberystwyth i astudio Gwleidyddiaeth Rhwngwladol yn dilyn ei berfformiad cryf yn yr arholiadau ysgoloriaeth. Llongyfarchiadau mawr iddo fe, a phob dymuniad da i weddill y myfyrwyr yn yr arholiadau allweddol i ddod.

Llongyfarchiadau gwresog i Dewi Jones (Llanharan) o flwyddyn 13 ar ennill gwobr Myfyriwr y Flwyddyn (wedi noddi gan Lwybrau dysgu 14 - 19 Penybont). Mae Dewi yn astudio 2 bwnc lefel A yn Ysgol Llanhari ac yn astudio safon uwch Ffilm yng Ngholeg Penybont. Mae ennill y wobr yma yn dystiolaeth o'i waith caled a'i bresenoldeb ardderchog ar hyd y ddwy flynedd.

Cerddorion, dawnswyr ac actorion Llanhari

Ymfalchiwn ar gamp Megan Griffith Blwyddyn 12 yn ennill cystadleuaeth Cantores Ifanc y Flwyddyn Dunraven a gyflwynwyd gan Gôr Meibion Maesteg yn ddiweddar.

Braf oedd gweld Ifan Jenkin Bl 12 yn westai ar raglen gyntaf cyfres deledu newydd Margaret Williams nos Sadwrn. Fel enghraifft o dalent newydd, addawol, cawsom flas o'i ddawn fel pianydd a gwrando arno'n sgwrsio am ei brofiadau cerddorol.

Mae Gwynfor Dafydd o Fl 10 yn ymddangos ar raglen S4C Gwaith Cartref ar hyn o bryd.

Llongyfarchiadau i Paige Jenkins Bl 10 ar ei llwyddiant yn ei harholiad Ballet Gradd 6.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r cystadleuwyr a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn ddiweddar. Sir Benfro a'r Genedlaethol amdani!
Alys John - unawd merched dan 15
Angharad Davies-unawd llinynnol dan 15
Beca Ellis- unawd alaw werin dan 15
Siwan Henderson- Unawd merched dan 19
Parti Merched dan 15
Ifan Jenkin – Unawd Piano dan 19
Parti Llefaru 7.8.9. Parti llefaru 10-13
Ymgom 10-13. Ymgom Ddigri 10 -13

Rygbi 7 bob ochr
Ddydd Iau diwethaf chwaraeodd tîm rygbi 7 bob ochr Bl.8 yr ysgol yn nhwrnament ysgolion Pontypridd. Enillon ni pob gêm ond am un gêm gyfartal yn erbyn ysgol Bryn Celynnog. Ar ddiwedd y dydd aethon ni ymlaen i'r ffeinal a chwarae Ysgol Gartholwg a'i curo nhw 64-0. Ein prif sgorwyr oedd Iwan Griffith, Dewi Cross a Liam Bradford.

Nofwraig dalentog



Mae Shauna Hayes Withers, Bl.8 wedi cael tymor arbennig yn y pwll nofio. Bu'n cystadlu mewn sawl gala lefel 1 – sef y lefel uchaf posib a chafodd ei dewis i gystadlu mewn pencampwriaethau yn Jersey a Sheffield! Rydym yn ei llongyfach ar ennill ei lle i gystadlu ym 'Mhencampwriaethau'r Haf' eleni. Soniodd aderyn bach hefyd y bydd yn cael mynychu 'gwersyll hyfforddi' yng Nghyprus y flwyddyn nesaf. Braf iawn Shauna a phob hwyl i ti!

Bydi am Byth
Rydym yn hynod falch ein bod nawr wedi cychwyn ein system BYDI rhwng yr adran gynradd ac uwchradd. Cyn y Pasg, daeth dros 30 o ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 i'r adran gynradd er mwyn cwrdd â'r plant a dod i'w hadnabod. Ein bwriad dros y tymor nesaf yw y bydd y BYDIs yn treulio amser yn yr adran gynradd yn chwarae gyda'r plant, yn eu cynorthwyo yn eu gwaith ac yn eu cefnogi wrth iddynt lwyddo mewn amryw weithgareddau. Mae'r BYDIs yn barod wedi gwylio disgyblion Cadi Cwningen a Dewi Draenog yn ymarfer ar gyfer yr orymdaith hetiau Pasg! Maen nhw nawr yn ymarfer yn brysur ar gyfer darllen storiau iddynt ac yn edrych ymlaen yn arw at eu cefnogi yn y mabolgampau ym mis Mehefin ac ar eu diwrnod graddio ym mis Gorffennaf!

Y Bydis

Shannon, Charlotte ac Eleri o Flwyddyn 8 yn helpu Dilan, Sienna ac Olivia wrth adeiladu.

Croeso
Hoffem estyn groeso cynnes i Miss Emma Rees sydd wedi ymuno â ni i wneud cyfnod mamolaeth fel cynorthwywraig yn nosbarth Cadi Cwningen.

Croeso hefyd i Miss Emma Bird sydd yn gweithio â disgyblion Cadi Cwningen. Mae Emma wrthi yn gweithio tuag at ei lefel 3 ar ei chwrs CACHE.

Geni Merch
Llongyfarchiadau i Miss Carly Ryan, cynorthwy-wraig yn Nosbarth Dewi Draenog, a'i phartner Barry ar enedigaeth eu merch fach, Sadie.

Llongyfarchiadau hefyd i Miss Leana Stansfield o'r Adran Wyddoniaeth a'I phartner ar enedigaeth Mali.

Gweithgareddau'r Pasg
Roedd neuadd yr ysgol yn llawn mamau-cu a thadau-cu Dosbarth Dewi Draenog a Dosbarth Cadi Cwnignen ar gyfer ein gorymdaith hetiau Pasg cyn y gwyliau. Cymdeithason nhw gyda phaned o de a chacen cyn gwylio eu hwyrion ac wyresau yn arddangos eu hetiau bendigedig, lliwgar. Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth wrth baratoi eu plant ar gyfer y diwrnod arbennig hwn.

Trefnodd 'Ffrindiau Llanhari' helfa wyau Pasg a disgo ar gyfer y plant yn dilyn yr orymdaith. Roedd y plant wrth eu boddau yn dilyn llwybr y bwni Pasg ac yn ddiweddarach yn dawnsio, canu a chwarae ymysg y swigod uwch eu pennau yn y disgo! Diolch i 'Ffrindiau Llanhari' am drefnu eu digwyddiad llwyddiannus cyntaf ar gyfer y plant cynradd.

Cywion bach
Yn rhan o'n thema 'Ffrindiau'r Fferm', rydym wedi buddsoddi mewn deorfa! Mae'r disgyblion yn hollol gyffrous ac yn edrych ymlaen at gael gwrdd â'r cywion bach! Mae hwn yn gyfle delfrydol i'r disgyblion ddysgu am gylch bywyd iâr mewn ffordd hwyl ac ymarferol a deall pwysigrwydd gofalu am anifeiliaid newydd.

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Dawns Greadigol

Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 8 Ysgol Gyfun Garth Olwg ar ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth y Ddawns Greadigol yn yr Eisteddfod Sir ym mis Mawrth. Aelodau'r grŵp yw Carys Bowen, Taome Edwards, Georgia Jenkins a Jessica Davies. Dyma'r tro cyntaf i'r merched gystadlu yn y gystadleuaeth hon a derbyniodd y grŵp feirniadaeth addawol iawn! Pob lwc i chi yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro!

Gwaith Blasus

Enillodd Megan Meadows 7H, Tallis Griffith 7H ac Indeg Lacey 7H y wobr 1af, 2ail a 3ydd yn y gystadleuaeth Gwaith creadigol 3D ar gyfer Eisteddfod yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!

Mentoriaid Cyfoedion

Mae menter gyffrous newydd ar y gweill yng Ngarth Olwg. Yn dilyn trafodaethau yn y Cyngor Ysgol am bob math o fwlian, hyfforddwyd nifer o aelodau o flwyddyn 10, 11 a 12 i fod yn Fentoriaid Cyfoedion. Mae'r criw wedi creu fideo i ddangos i blant iau'r ysgol yn esbonio beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau. Rydym yn edrych ymlaen at weld dylanwad eu gwaith!

Noson Gwobrwyo

Fe ddaeth disgyblion a chyn ddisgyblion at ei gilydd i ddathlu eu llwyddiannau yn ein noson wobrwyo. Y gŵr gwadd oedd Dr. Phil Ellis ac fe gyflwynodd ef sawl gwobr gan gynnwys tystysgrifau TGAU a Lefel A a gwobrau arbennig fel gwobr goffa Gwenan Brooks. Cyflwynwyd y wobr er cof am Athrawes Ffiseg yr Ysgol i Aled Humphreys cyn ddisgybl yr Ysgol, am ddangos agwedd frwdfrydig tuag at y pwnc. Roedd hi'n noson arbennig iawn!

Ffisegwyr Garth Olwg yn tracio Eiddo'r BBC.

Cychwynnodd y daith i'r "Celtic Manor" ym mis Hydref 2012, gyda phedwar pererin brwdfrydig fel rhan o gystadleuaeth flynyddol Cynllun Addysg Peirianneg Cymru (www.eesw.org.uk). Bwriad y cynllun yw denu mwy o fyfyrwyr disglair i astudio Peirianneg fel pwnc yn y brifysgol, trwy gydweithio ar brosiect gyda chwmni peirianneg lleol a defnyddio adnoddau prifysgol.

Aeth y pedwar ohonom ymlaen i'r gweithdy deuddydd ym Mhrifysgol Morgannwg ym mis Rhagfyr. Yn cydgerdded gyda ni oedd ein partner David Williams, peiriannydd o'r BBC. Ein tasg oedd ffeindio ffordd o dracio offer drudfawr y peirianwyr a dynion camera a sain ar hyd safleoedd y BBC yng Nghymru. Roedd angen i ni'r pedwar pererin gwydn rannu'r gwaith a brwydo ymlaen hyd fis Mawrth i greu dogfen broffesiynol i gyflwyno i'r panel beirniadu.

O'r diwedd, pen y daith! Ystafelloedd cynadledda'r Celtic Manor, a'r cyflwyniad llafar i'r panel beirniadu. Trafodon ni ein cynlluniau gyda'r panel am ugain munud ac ateb cwestiynau lu. Roedd cyfle arbennig ar y diwrnod i ni ymweld â stondinau Prifysgolion a chwmnïau, i holi am yrfaoedd a nawdd.

Llongyfarchiadau i Liam Collins-Jones, Jacob Pahulo-Smith, Matthew James a Joshua Sayle ar eu hymdrech. Bydd y profiad o fantais mawr iddyn nhw wrth geisio am le yn y Brifysgol.

Hoffai'r ysgol a'r disgyblion ddiolch yn fawr i David am ei waith caled ac i'r EESW am drefnu'r cwbl ers dros 20 mlynedd bellach. Pob lwc i dîm 2014!

Taith Gwlad Yr Ia

Am 1 o'r gloch y bore ar y 21ain o Fawrth, cychwynnodd 41 o ddisgyblion a 5 athro o Ysgol Gyfun Garth Olwg ar eu taith i Wlad yr Iâ. Ni chysgodd lawer o blant ar y bws na'r awyren felly roedden nhw'n flinedig iawn. Serch hyn, nid oedd yn broblem gan fod cyffro ac adrenalin y plant yn eu cadw ar ddihyn. Ar y diwrnod cyntaf aethon nhw i'r Blue Lagwn lle ymlaciodd pawb yn y dŵr twym. Roedd yna arogl cryf o sylffwr yn yr awyr, ond roedd pawb yn mwynhau gormod i boeni!

Ar yr ail ddiwrnod, roedd pawb wedi blino'n lân, a chysgodd nifer ohonynt ar y bws. Roedd y tywydd yn oer ac yn wyntog, ond roedd golygfeydd rhaeadr Gulfoss, y geiser a'r llosgfynydd yn ddigon i atal y plant rhag cwyno gormod! Ar ddiwrnod olaf y daith, ymwelon nhw â rhagor o raeadrau, rhewlif enfawr a thraeth hynod o wyntog! Am tua hanner awr wedi deg y noson honno gwelodd y grŵp lwcus Oleuadau'r Gogledd! Cafodd y plant eu mesmereiddio gan y lliwiau estron. Roedd yr athrawon Daearyddiaeth bron â chrio gyda'r cyffro! Wrth lwc, llwyddodd Mr Jones i ddal y cyfan ar gamera.

Telynorion

Ddydd Sadwrn, Mawrth 23ain aeth dwy delynores o flwyddyn 7, sef Ella Jones-Isles a Morgan Evans ar gwrs Telynau Morgannwg yn Theatr Soar, Merthyr. Hefyd, buon nhw, a thair merch arall, sef Rebeca a Carys Preddy a Caitlin Sparkes yn canu'r delyn ym Mhen-y-bont fel rhan o ddathliadau i gofio'r telynor enwog John Thomas.

"First campus"

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf aeth disgyblion blwyddyn naw ar drip i'r Brifysgol Fetropolitan yng Nghaerdydd. Cafon nhw gyfle i ymweld â'r brifysgol a chael cip olwg ar y math o gyrsiau sy'n cael eu cynnig ar y safle. Cafon nhw amser arbennig o dda. Dywedodd Jack Osborne "Roedd y cwrs yn dda ac yn rhoi blas i ni ar gyfer ein dyfodol".

Penllanw'r tymor i Bontypridd

Mae'r tymor yn dirwyn i ben i Glwb Rygbi Pontypridd ond gyda dwy gêm enfawr eto i ddod a'r cyfle i hawlio'r dwbwl, sef cwpan SWALEC a choron Uwch Gynghrair Cymru.

Beth bynnag fydd ffawd y tîm yn y ddwy gêm derfynnol hynny, mae'r tymor eisioes wedi bod yn un aruthrol o lwyddiannus. Hyd at benwythnos olaf mis Ebrill dim ond un gêm roedd Ponty wedi ei cholli yn y gynghrair o'r un-ar-hugain a chwaraewyd, a sicrhawyd buddugoliaethau hefyd ym mhob rownd o'r cwpan i gyrraedd y rownd derfynnol.

Enillwyd pob un gêm gartref a chwaraewyd ar faes Heol Sardis, gan ail hawlio i'r lle yr enw House Of Pain. Ymysg y buddugoliaethau mawr roedd y rheini yn erbyn timau proffesiynnol Leinster o'r Iwerddon a Leeds Carnegie o Loegr, hynny yng Nghwpan Prydain ac Iwerddon.

Mae hyfforddwyr Pontypridd, Dale McIntosh a Paul John, wedi bod yn garcus wrth lywio'r clwb trwy'r tymor hir a chaled, gan orffwys chwaraewyr a dibynnu ar gryfder y garfan i gadw'r momentwm i fynd.

Yn ystod y mis diwethaf cafwyd buddugoliaethau, ac yn fwy na hynny, berfformiadau hynod o lewyrchus yn erbyn timau fel Jersey, Caerdydd ddwywaith a Bedwas.

Yn awr mae'r holl ymdrech a'r llwyddiant sydd wedi gweld Ponty yn diweddu'r tymor dros ugain pwynt yn glir ar frig yr adran, yn dibynnu'n llwyr ar ddwy gem sydd yn weddill.

Ddydd Sadwrn 4ydd o Fai bydd Ponty yn herio Castell Nedd yn Stadiwm y Mileniwm yn rownd derfynnol Cwpan SWALEC. Mae'r gêm yn cychwyn am 5:30pm ac yn cael ei darlledu yn fyw ar S4C.

Ddydd Sadwrn 18fed o Fai bydd Ponty yn chwarae yn rownd derfynnol gemau ail-gyfle'r Uwch Gynghrair - yr ornest hon fydd yn penderfynnu pwy fydd y pencampwyr. Ar Heol Sardis y caiff y gem ei chwarae, eto i'w dangos yn fyw ar S4C.

Os am brofi cyffro penllanw'r tymor i Bontypridd, dewch lawr i Heol Sardis i wylio'r gemau mawr. Mae'r manylion i gyd ar wefan y clwb: www.ponty.net

Ysgol Llanhari
(parhad o dudalen 14)

Blwyddyn 9 yn y gweithle

Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 ddiwrnod gwerth chweil yn ddiweddar yn ymweld â'r Byd Gwaith fel rhan o'r rhaglen Partneriaeth Addysg a Busnes. Cawsant ymweld â Gwesty'r Vale (gan weld aelodau o dîm rygbi Cymru yn ymlacio ar ol y gêm fawr!), safle GEAS yn Nantgarw, Castell Cyfarthfa a Chanolfan Amgen Cymru Bryn Pica ble buon nhw ar safari ailgylchu mewn 'jeep'!

Blwyddyn 9 yng Nghanolfan Amgen Cymru, Bryn Pica

Ffrindiau Llanhari

Cafwyd Noson Rasus hwyliog yng Nghlwb Rygbi Pontyclun nos Wener y 19eg o Ebrill. Hon oedd ail noson gymdeithasol Ffrindiau Llanhari sef cymdeithas rhieni, athrawon a holl ffrindiau'r ysgol. Diolch i bawb am gefnogi.

Gorfoleddu wrth ennill ras

Ysgol Garth Olwg yng Ngwlad yr Iâ
parhad o dudalen 15

Wrth ymyl rhaeadr Gulffoss